

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Rhaglen arolygu graidd awdurdodau lleol

Meini prawf asesu: canllawiau ar gyfer arolygwyr ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Fersiwn 0.5 Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2016 Dyddiad adolygu: 01/09/2017
--

Cyflwyniad

Dylid darllen y ddogfen hon ynghyd â Fframwaith Adolygu'r Awdurdodau Lleol, Adolygiad o Ymgysylltiad a Pherfformiad. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r meini prawf gwerthuso manwl a ddefnyddir gan arolygwyr i wneud dyfarniadau ansawdd wrth gynnal arolygiadau o adrannau gwasanaethau oedolion a phlant o dan raglen arolygu graidd awdurdodau lleol AGGCC. Bwriad y ddogfen hon yw sicrhau bod gan arolygwyr ac awdurdodau lleol ddealltwriaeth dryloyw a chyffredin o'r meini prawf a ddefnyddir i wneud dyfarniadau arolygu.

Sylfaen y rhaglen arolygu graidd yw'r wyth datganiad lles a'r canlyniadau lles cysylltiedig fel y'u nodwyd yn Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth ac ar gyfer Gofalwyr sydd angen Cymorth (mis Mawrth 2016). Mae ein hymagwedd yn adeiladu ar safonau ansawdd cysylltiedig yr awdurdodau lleol a nodwyd yn y **Cod Ymarfer mewn Perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyhoeddwyd dan adran 145 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**. Yn ogystal, bydd pob arolygiad yn ystyried gallu awdurdod lleol i wella trwy ddadansoddi'r modd y mae swyddogaethau ei wasanaethau cymdeithasol yn cael eu harwain a'u llywodraethu. Rydym wedi ymgorffori hyn yn ein meini prawf gwerthuso sy'n darparu set o bum **dimensiwn allweddol** sy'n seiliedig ar **feini prawf** ansawdd i helpu i arwain arolygwyr wrth wneud eu dyfarniadau, a darparu gwybodaeth eglur i awdurdodau lleol ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir. Ni fydd gwerthusiad yn erbyn yr holl feini prawf ansawdd yn cael ei gynnwys o reidrwydd ym mhob digwyddiad arolygu; bydd hyn yn dibynnu ar ffocws penodol yr arolygiad a bydd yn cael ei benderfynu gan adolygiad rheolaidd o'r materion a'r heriau allweddol sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd ffocws arolygiadau yn amrywio dros amser. Fodd bynnag, bydd pob arolygiad yn asesu i ba raddau mae gwaith gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol o ran helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, i gael canlyniadau da.

Noder: Trwy gydol y ddogfen hon mae defnydd generig o'r gair "pobl" yn cynnwys y canlynol: plentyn; person ifanc; neu oedolyn sydd angen gofal a chymorth neu gall fod angen gofal a chymorth; yn ogystal â gofalwyr sydd angen cymorth neu gallant fod angen gofal a chymorth. Mewn achos lle mae un o'r meini prawf yn berthnasol i un o'r pedwar grŵp hyn yn benodol, mae hyn wedi'i nodi.

Dimensiwn allweddol 1: Gwybodaeth Cyngor a Chymorth (GCC)

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn cydweithio â sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, cadw'n gyfredol a gwneud y defnydd gorau ar wybodaeth, cymorth ac adnoddau o'r sector statudol, gwirfoddol a phreifat sydd ar gael yn yr ardal. Mae gan bawb, gan gynnwys gofalmwr, fynediad at wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â gwasanaethau ac maent yn derbyn cyngor a chymorth yn ddioed, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r hyn y gallant ei ddisgwyl o ran yr ymateb a gânt gan y gwasanaeth. Mae trefniadau'n effeithiol wrth ohirio ac atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o fannau cyswilt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd, Mae'r gwasanaeth yn gwrandao ar bobl ac yn dechrau gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae arwyddbostio ac atgyfeirio pobl yn effeithiol yn cynnig dewis i bobl ynghylch cymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall trefniadau mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaethau yn gweithredu'n effeithiol.

Meini prawf ansawdd

- CC1 Mae pobl yn derbyn cymorth i esbonio'r hyn sydd o bwys iddynt ac yna yn derbyn cymorth sydd wedi ei gydgyssylltu'n dda ac yn gymesur â'u hymholiad.
- CC2 Mae trefniadau GCC yn eglur, yn effeithiol ac ar gael ar adeg sy'n briodol i anghenion y boblogaeth leol.
- CC3 Mae darpariaeth GCC yn sensitif ac yn atebol i oedran, anabledd, ethnigrwydd, ffydd neu greddo, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, iaith, hil a chyfeiriadedd rhywiol.
- CC4 Mae gwybodaeth hygyrch ynglŷn â gofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalmwr, ar gael sy'n gywir ac yn gyfredol, heb angen cofnodi'r data craidd yn y Dull Cenedlaethol ar gyfer Asesu a Phennu Cymhwysedd a heb fod asesiad wedi'i gynnal.
- CC5 Mewn achosion lle bydd angen cyngor a/neu gymorth, bydd asesiad cymesur yn dechrau drwy drafod a dadansoddi pum elfen y Dull Cenedlaethol ar gyfer Asesu a Phennu Cymhwysedd.
- CC6 Mae pobl yn cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ynglŷn â gofal a chymorth sydd: ar gael drwy amrywiaeth o gyfryngau (gan gynnwys wyneb yn wyneb); wedi'u teilwra i anghenion grwpiau gwahanol (gan gynnwys fersiynau Cymraeg, hawdd eu darllen ac yn gyfeillgar i blant); ac yn canolbwyntio ar grwpiau penodol – gan gynnwys defnyddio gweithwyr cymorth 1:1 os bydd angen e.e. ar gyfer pobl sy'n ddall a byddar.
- CC7 Mae pobl yn derbyn cyngor prydlon ynghylch eu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau. Maent yn cael eu cyfeirio'n gyflym at wasanaethau priodol amgen pan na fydd y trothwy ar gyfer derbyn gwasanaethau statudol wedi'i

gyrraedd. Yn y fath amgylchiadau mae'r cyngor yn darparu cymorth i'r bobl hynny mae angen cymorth arnynt i dderbyn gwasanaethau amgen. Nid oes unrhyw oedi sylweddol wrth gael mynediad at wasanaethau amgen. O ganlyniad i ymyriad cynnar bydd yr angen am wasanaethau statudol yn cael ei leihau neu ei osgoi.

- CC8 Mae trefniadau GCC yn dangos ac yn hybu ymagwedd integredig at wasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol. Maent yn rhoi cymorth i bobl i reoli eu canlyniadau lles eu hunain mewn modd gweithredol, i ddeall ansawdd y gofal mae ganddynt hawl i'w dderbyn ac i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal a'u cymorth.
- CC9 Mae protocolau diogelu lleol ar waith sy'n sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith os bydd amheuron ynghylch diogelwch unigolyn.
- CC10 Mae'r rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau ataliol a'r gwaith diogelu statudol yn cael ei wahaniaethu'n eglur ac yn effeithiol. Mae dull yr awdurdod o asesu risg a rheoli risg yn cael ei rannu a'i ddeall gan asiantaethau partner.
- CC11 Mae trothwyon mynediad yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth yn briodol, yn cael eu deall gan bobl a phartneriaid ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Maent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae trothwyon yn effeithiol o ran osgoi drifft neu oediad. Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau ar waith i nodi'r bobl hynny y bydd cam gweithredu ataliol yn arbennig o briodol ar eu cyfer sydd wedi'i gysylltu â dull eglur i ddiogelu a rheoli risg.
- CC12 Mae pobl yn cael cynnig cymorth a/neu amddiffyniad ar ôl nodi anghenion/pryderon am y tro cyntaf. Mae pobl yn cael cymorth a chefnogaeth sy'n amserol; yn briodol; yn gymesur â'r risg; ac yn canolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys iddynt. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu'n effeithiol, ei rhannu'n briodol a'i dadansoddi er mwyn nodi pryderon diogelu a sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael mewn perygl neu mewn sefyllfa anniogel.
- CC13 Mae asiantaethau partneriaid yn cyfrannu'n effeithiol ac yn gyfarwydd â'r systemau a'r trefniadau ar waith ar gyfer GCC.
- CC14 Mae gweithwyr proffesiynol eraill yn gwneud atgyfeiriadau priodol at wasanaethau cymdeithasol o ran pobl sydd mewn perygl o gael eu camdrin, eu hesgeuluso neu'u hanafu ac ar gyfer y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae gweithwyr proffesiynol yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â gwneud atgyfeiriadau a chyfrannu atynt. Mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yng nghanlyniadau'r atgyfeiriadau maent yn eu gwneud i'r awdurdod.
- CC15 Mae gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu neu eu trefnu mewn modd priodol ac amserol. Mae'r awdurdod lleol yn gallu dangos arloesedd yn eu dull o weithredu gwasanaethau ataliol, gan wneud y defnydd gorau ar adnoddau, cyflawni gwerth am arian ac ymgysylltu'n weithredol â gwasanaethau ieuchyd, y trydydd sector ac asiantaethau partneriaid eraill er mwyn diwallu anghenion a nodwyd. Mae effeithiolrwydd GCC a gwasanaethau ataliol eraill yn cael ei ddeall ac yn llywio datblygiad y ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

- CC16 Bydd ystod a lefel y cymorth cynnar a'r gwasanaethau ataliol y mae'r awdurdod yn eu darparu neu'n eu trefnu yn hybu lles y bobl mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae gwasanaethau o fewn yr awdurdod lleol yn cael eu halinio yn y fath ffordd er mwyn helpu i osgoi neu oedi datblygiad anghenion gofal a chymorth. Mae pobl yn cael eu hannog yn briodol i gyfrannu at eu canlyniadau lles eu hunain gan gydnabod eu cryfderau personol a'u rhwydweithiau cymunedol.
- CC17 Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cefnogi gan staff sy'n gweithredu'n broffesiynol ac mae ganddynt y profiad a'r wybodaeth addas. Mae gan staff wybodaeth dda o gyfleusterau lleol ac yn hybu ymwybyddiaeth pobl o'r rhain mewn modd gweithredol i roi dewis iddynt. Mae gan y gwasanaeth y capasiti i gyflawni gwasanaeth sy'n wybodus ac wedi'i bersonoli.
- CC18 Mae ystod briodol o eiriolwyr sydd â chapasiti digonol ar gael er mwyn cael mynediad amserol. Mae eiriolaeth yn cael ei chynnig a'i darparu i alluogi pobl i wneud dewisiadau am yr angen am wasanaethau a mynediad iddynt.
- CC19 Mae GCC yn darparu man cyswllt cyntaf sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl sy'n eu defnyddio. Mae'r rhai sy'n cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn credu iddynt gael eu trin mewn modd teg a phriodol, yn gwybod beth yw canlyniad y cyswllt, a pha gamau gweithredu, os o gwbl, fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad i hyn a chan bwy. Mae pobl yn gwybod eu prif fan cyswllt.
- CC20 Gwneir y "cynnig gweithredol" a darperir GCC drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn unol â fframwaith llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Mwy Na Geiriau - Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019 yn ogystal ag mewn ieithoedd eraill o ddewis lle bo angen. Mae gan yr awdurdod lleol system ar waith ac yn cofnodi pan wneir "cynnig gweithredol" gan gofnodi'r iaith mae ei hangen yng nghofnodion pobl.
- CC21 Dangosir mynediad at wasanaethau wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau ataliol. Mae sylw penodol yn cael ei roi i gynnwys cymorth i bobl er mwyn iddynt ymgysylltu â gwasanaethau ac yn enwedig i sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael y sylw priodol.
- CC22 Mae tystiolaeth o oruchwyliaeth strwythuredig a rheolaidd gan reolwyr o ran gwneud penderfyniadau o fewn y broses GCC. Mae unrhyw benderfyniadau a gymerir yn cael eu cymeradwyo ar lefel rheolwyr ac yn cael eu cofnodi.
- CC23 (Mewn awdurdodau perthnasol yn unig) Mae trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod pobl a gedwir mewn sefydliadau diogel yn gwybod am y gwasanaeth GCC ac yn cael mynediad ato, bod asesiad o'u cymhwysedd yn amserol, a lle bydd trothwyon yn cael eu bodloni mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Dimensiwn allweddol 2: Aseiad

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r holl bobl sydd â hawl i gael aseiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn derbyn un yn eu dewis iaith. Mae'r holl ofalwyr y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymorth yn cael cynnig aseiad anghenion gofalwr, heb ystyried y math o ofal mae ei angen, eu hincwm ariannol neu lefel y cymorth y bydd ei angen. Mae pobl yn derbyn aseiad amserol o'u hanghenion sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau. Mae aseidiadau yn ystyried canlyniadau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau personol y person sy'n destun aseiad a rhai pobl berthnasol eraill gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu eu lles a'u diogelwch yn ogystal â lles a diogelwch pobl eraill. Mae aseidiadau yn darparu dealltwriaeth eglur o beth fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i anghenion a nodwyd. Mae camau gweithredu, sy'n bwriadu cyflawni canlyniadau sydd o bwys i bobl, yn cael eu nodi ac yn cynnwys yr holl rai y gellir eu bodloni drwy wasanaethau ataliol neu gymunedol yn ogystal â darpariaeth arbenigol.

Meini prawf ansawdd

- A1 Caiff aseidiadau eu cynnal gan y sawl sy'n gymwys i'w gwneud.
- A2 Mae darparu aseiad yn sensitif ac yn ymatebol i oedran, anabledd, ethnigrwydd, ffydd neu greddo, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, iaith, hil a chyfeiriadedd rhywiol.
- A3 Mae ymholiadau yn drwyadl ac yn cael eu cynnal yn brydlon. Mae ymateb amserol i atgyfeiriadau, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae camau gweithredu prydlon ac effeithiol yn cael eu cymryd i amddiffyn pobl lle nodwyd yr angen hwn. Mae arbenigedd a chynghor gwaith cymdeithasol ar gael i gefnogi gweithwyr proffesiynol eraill wrth wneud y penderfyniadau gorau.
- A4 Mae'r gwaith rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn amserol, yn benodol ac yn effeithiol ac yn ystyried yn llawn y gofynion perthnasol yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n ymwneud ag ystyriaethau cydsyniad.
- A5 Mae aseiad yn amserol, yn gymesur â'r anghenion ac yn ymatebol i frys yr anghenion a'r risgiau; mae'n cael ei llywio gan ymchwil a hanes, y cyd-destun a'r digwyddiadau sylweddol ym mhob achos. Mae aseidiadau yn cyfrannu mewn ffordd eglur at gyflawni'r canlyniadau sydd o bwys i bobl. Mae amseroldeb a natur yr aseiad wedi'i gytuno â rheolwr. Pan fydd digon o wybodaeth ar gael mae'n bosibl y bydd **aseiad syml a gynhyrchir ar y cyd** yn ddigonol i benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) y dylid eu darparu, a chan bwy. Mewn amgylchiadau eraill mae'n bosibl y bydd angen **aseiad mwy cynhwysfawr** i ddeall yn llawn y canlyniadau mae pobl yn dymuno eu cyflawni a pha fath o ymatebion neu wasanaethau sy'n fwyaf tebygol o arwain at y rhain. O dan yr

amgylchiadau hyn, mae gwybodaeth o'r asesiad syml bob amser yn cael ei defnyddio i lywio'r asesiad parhaus.

- A6 Mae'n rhaid i'r broses asesu gael ei chynllunio o amgylch anghenion yr oedolyn neu'r plentyn y mae eu hanghenion yn cael eu hasesu. Mae hyn yn cynnwys y dogfennau a ddefnyddir; yr amgylchedd lle mae'r asesiad yn digwydd; dulliau cyfathrebu a ddefnyddir; ac argaeledd gofalwr, aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr fel y cytunwyd arno neu fel y bo'r angen.
- A7 Mae pob gofalwr mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad yn eu rhinwedd eu hunain. Ni ddylid cyfuno asesiad y gofalwr ac asesiad y person sy'n derbyn gofal ond gyda chaniatâd y gofalwr.
- A8 Mae pobl yn cyfrannu at eu hasesiad eu hunain. Gwneir "cynnig gweithredol" i alluogi pobl i gyfrannu yn eu dewis iaith. Defnyddir eiriolaeth lle bo'n briodol i gefnogi'r broses asesu a'i chyfraniad at hybu canlyniadau lles, at ddiogelu ac at amcanion atal. Fel sy'n rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu lles a diogelwch yr unigolyn ac eraill mae asesiad yn cymryd safbwyntiau teuluoedd pobl, gofalwyr a chysylltiadau personol eraill i ystyriaeth wrth asesu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae gan rieni a gofalwyr gyfleoedd i ddisgrifio eu sefyllfa eu hunain a'r cymorth mae'n bosibl y bydd ei angen arnynt.
- A9 Mae'r ddogfennaeth a ddefnyddir i gofnodi'r asesiad yn galluogi'r dull hwn mewn modd cadarnhaol. Mae ansawdd y dadansoddiad ysgrifenedig wrth asesu, gan gynnwys dadansoddiad o risg, yn gyson ac yn llywio gwaith cynllunio sy'n uchafu'r tebygrwydd o ganlyniadau sydd o bwys i bobl yn effeithiol ac yn lleihau effaith y risgiau a nodwyd.
- A10 Gall asesiad arwain at bobl yn cael eu cyfeirio'n eglur a'u cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ataliol neu yn y gymuned. Pan ddarperir gwasanaethau yn ôl yr angen cymwys, dylid datblygu cynllun gofal a chymorth amlasiantaeth a phan fydd angen gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau arbenigol, dylid eu gwneud yn brydlon. Pan fydd angen awdurdodiad ychwanegol i ddarparu cymorth, mae trefniadau ar waith i osgoi drifftio neu oedi wrth wneud penderfyniadau.
- A11 Mae ymarferwyr yn ymwybodol o unrhyw risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed i'r person sy'n cael ei asesu ac i eraill; gan gynnwys pobl eraill dan eu gofal. Mae asesiad yn nodi ac yn archwilio ffynhonnell a natur y risgiau hyn ac mae dull y cytunwyd arno i reoli neu leihau risg.
- A12 Mae asesiadau yn cael eu gweld fel rhan hanfodol o'r ymyriad sy'n cefnogi pobl i nodi sut maent yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain ac i gynnal, adennill neu ddatblygu eu sgiliau a'u capasiti. Mae asesiadau yn cefnogi pobl i werthuso eu dewisiadau eu hunain, adnabod perthnasau anniogel a sut i'w hamddiffyn eu hunain ac eraill sydd o bwys iddynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- A13 Mae staff yn dod o hyd i ffyrdd effeithiol i ymgysylltu â phobl a pharhau hynny. Pan fydd pryderon am ddiogelwch ac amddiffyniad ac nid yw pobl yn cymryd

rhan, mae risgiau yn cael eu hadolygu ac mae rheolwyr yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar sail risg.

- A14 Mae asesiad yn sicrhau bod buddion pennaf pobl yn cael eu deall a'u hyrwyddo a bod eu hannibyniaeth yn cael ei huchafu. Mae'n cydnabod y bydd y syniad o les a'r canlyniadau sy'n cynrychioli hyn yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Mae'n cydnabod y gall fod amgylchiadau pan na ellir cyflawni canlyniadau personol drwy berthynas gyfartal rhwng pobl ac ymarferwyr.
- A15 Mae tystiolaeth o oruchwyliaeth strwythuredig a rheolaidd gan y rheolwyr o benderfyniadau a wneir o fewn y broses asesu. Mae unrhyw benderfyniadau a gymerir yn cael eu cymeradwyo ar lefel rheolwyr ac yn cael eu cofnodi.
- A16 Pan fydd gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn gofyn, mae gweithwyr proffesiynol o sefydliadau eraill megis iechyd a'r rhai o fewn rhannau eraill o'r awdurdod lleol megis tai ac addysg yn deall eu cyfrifoldebau a'u dyletswydd i gydweithredu ac yn cynorthwyo'n weithredol gwasanaethau cymdeithasol i ymgymryd â'u swyddogaethau asesu.
- A17 Dylai'r broses asesu fod yn hygyrch i bawb, gyda'r ddogfennaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen neu fformatau eraill. Dylai cymorth cyfathrebu fod ar gael, i helpu'r unigolyn y mae ei anghenion yn cael ei asesu i ddeall canlyniad yr asesiad.

Dimensiwn allweddol 3: Gofal a chymorth

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn derbyn gofal aml-asiantaeth amserol ac effeithiol, cymorth, ac amddiffyniad le bo'n briodol. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, dewis a lles, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sydd o bwys iddynt. Mae pobl yn cael cymorth i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i'w cynhwysiant cymdeithasol.

Meini prawf ansawdd

- GC1 Mae pobl a theuluoedd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi eu gwasanaethau gofal a chymorth. Maent yn cael eu cefnogi i nodi'r hyn sydd o bwys iddynt a sut maent yn gallu cyflawni eu canlyniadau lles personol. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu disgrifio'n glir ac mae'r camau gweithredu i'w cyflawni yn cael eu nodi.
- GC2 Mae darpariaeth gofal a chymorth yn sensitif ac yn ymatebol i oedran, anabledd, ethnigrwydd, ffydd neu gredo, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, iaith, hil a chyfeiriadedd rhywiol. Mae hunaniaeth unigol a threfn ddyddiol pobl yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.
- GC3 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio mewn modd agored a thryloyw mewn partneriaeth gyfartal â phobl i hybu eu lles. Mae'n hyblyg o ran y dull a ddefnyddir i sicrhau'r agweddau hynny o les sydd o bwys i bobl.
- GC4 Mae pobl a theuluoedd yn cymryd rhan mewn cynllunio a datblygu'r gwasanaethau. Mae niferoedd a chyfraddau cynyddol o bobl yn comisiynu eu gwasanaethau eu hunain yn eu cyfanrwydd neu'n rhannol drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol.
- GC5 Mae cynlluniau a gwasanaethau yn cefnogi pobl i reoli risgiau mewn modd cymesur, sy'n unol â'u hoedran, eu haeddfedrwydd a'u dealltwriaeth, ac yn eu galluogi i deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau.
- GS6 Mae cynlluniau a gwasanaethau yn adeiladau ar gryfderau a galluoedd pobl a theuluoedd. Maent yn galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau sydd wedi'u lunio i gefnogi ailalluogi ac annibyniaeth, lleihau unigedd a hybu eu cyfranogiad ehangach mewn bywyd cymunedol.
- GC7 Mae pobl yn cael cymorth i fyw o fewn eu teulu neu gartref eu hunain. Lle nad yw'n ddiogel neu'n bosibl diwallu anghenion pobl gyda'u teulu neu gartref, maent yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau sy'n eu galluogi i fyw mewn lleoliadau sefydlog a chadw cyswllt â'u teulu a ffrindiau mewn achosion lle mae hynny er eu budd gorau.
- GC8 Mae cynlluniau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn edrych tuag at y dyfodol ac yn dangos y cyfraniad uniongyrchol mae pobl yn gallu eu gwneud atynt. Mae ansawdd cynllunio gofal a chymorth bob amser yn dda.

Mae cynlluniau yn nodi anghenion yn eglur, sut ac erbyn pryd bydd y rhain yn cael eu diwallu a chan bwy. Mae gan bobl gopi o'u cynllun yn yr iaith a'r fformat o'u dewis.

- GC9 Mae gofal a chymorth yn hyrwyddo'r trefniadau gorau posibl ar gyfer yr unigolyn a chyn belled ag sy'n ymarferol bosibl yn gyson â hybu eu lles hwythau yn ogystal â lles eu teulu a/neu eu gofalwyr.
- GS10 Mae cymorth i ofalwyr sydd ag anghenion cymwys yn cael ei nodi mewn cynllun cymorth sy'n esbonio sut y bydd yr anghenion yn cael eu diwallu. Mae gofalwyr yn cael cynnig yr opsiwn o daliadau uniongyrchol i brynu eu pecyn eu hunain o gymorth i ddiwallu eu hanghenion cymwys.
- GC11 Ar gyfer pobl mae angen amddiffyniad arnynt, mae cynlluniau yn nodi'n eglur y risgiau a'r newidiadau sy'n angenrheidiol, o fewn amserlenni priodol, er mwyn lleihau'r rhain. Mae'r cynllun yn glir o ran y canlyniadau a geisir a phwy sy'n gyfrifol am gyflenwi beth a pham. Mae disgwyliadau'r asiantaeth yn glir gan gynnwys yr hyn mae angen ei wneud ac i ba raddau. Mae cynlluniau yn nodi trefniadau wrth gefn neu opsiynau allweddol sy'n codi ac yn nodi beth mae angen i bobl ei wneud os bydd angen newid rhywfaint o'r cynllun neu'r holl gynllun. Mae gan bobl gopi o'u cynllun yn yr iaith o'u dewis.
- GC12 Gwrandewir ar bobl. Mae ymarfer yn canolbwyntio ar anghenion pobl, eu profiadau a'r canlyniadau a ddymunir a chyn belled ag sy'n ymarferol mae'n ystyried eu dymuniadau a'u teimladau neu, lle nad ydynt yn gallu cynrychioli eu safbwyntiau eu hunain, y sawl sy'n eiriol ar eu rhan. Mae pobl yn cael eu gweld ac yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain lle bernir ei bod yn briodol neu'n ofynnol yn ôl canllawiau statudol.
- GC13 Mae'r sawl sy'n helpu pobl yn deall eu cyfrifoldebau proffesiynol, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn rhagweld yr hyn fydd angen ar bobl yn y dyfodol ac yn cydgynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth.
- GC14 Mae cynlluniau a phenderfyniadau yn cael eu hadolygu'n amserol i ddadansoddi'r cynnydd a wnaed wrth ddiwallu anghenion a nodwyd. Mae gofynion adolygu statudol yn cael eu bodloni. Mae adolygiad cynlluniau yn ymateb yn effeithiol i amgylchiadau newidiol ac yn gwerthuso cynnydd wrth gyflawni canlyniadau lles personol. Mae rheoli gofal yn wylidwrus ac yn ymatebol i bryderon neu risgiau pan gaiff y rhain eu lleisio.
- GC15 Mae cyfarfodydd cynllunio, cynadleddau a chyfarfodydd adolygu yn cael eu cadeirio'n dda, yn digwydd ar amser ac yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol. Mae pob yn cael eu cefnogi i gyfrannu mewn modd ystyrlon at gyfarfodydd.
- GC16 Mae gan bobl sydd â chynllun gofal a chymorth weithiwr neilltuedig sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol â phartneriaid i hyrwyddo proses bontio esmwyth o ofal a chymorth ar draws a rhwng gwasanaethau.
- GC17 Mae cynllunio pontio yn effeithiol. Mae trefniadau trosglwyddo o fewn a rhwng gwasanaethau gan gynnwys: rhwng awdurdodau lleol; rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd; a rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau diogel

yn hyrwyddo parhad, yn lleihau neu'n dileu diffyg symbyliad wrth gynllunio ac ymgysylltu â phobl neu oedi o ran darparu gwasanaethau.

GS18 Mae cofnodion achos yn cael eu trefnu'n dda, yn cynnwys dogfennau allweddol ac yn gyfredol. Mae'r holl benderfyniadau, camau gweithredu ac ymgysylltu â phobl a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu cofnodi'n eglur. Mae systemau gwybodaeth yn darparu trosolwg effeithiol o gysylltiad blaenorol pobl â'r gwasanaethau. Mae'r defnydd ar gronolegau a genogramau yn bwrpasol. Mae'r cofnod yn dangos gwaith achos sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn darparu tystiolaeth o ddymuniadau a theimladau'r person. Mae'r dogfennau a ddefnyddir yn cefnogi ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau. Mae cofnodion achos yn sicrhau bod cofnod o'r "cynnig gweithredol" wedi'i wneud a bod dewisiadau pobl o ran cyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg wedi cael eu canfod. Mae adnoddau cymorth i fusnesau yn galluogi staff i weithio'n fwy effeithiol.

GC19 Ceir tystiolaeth bod rheolwyr yn goruchwyllo penderfyniadau a wneir yn strwythuredig ac yn rheolaidd o fewn y broses cynllunio ac adolygu gofal. Mae unrhyw benderfyniadau a gymerir yn cael eu cymeradwyo ar lefel rheolwyr ac yn cael eu cofnodi.

Dimensiwn allweddol 4: Diogelu ac amddiffyn

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol fel ei gilydd. Pan fydd pobl yn dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed neu mewn perygl ohonynt, maent yn derbyn ymatebion aml-asiantaeth brys sydd wedi'u trefnu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau rheoli risg neu ddiogelwch yn llwyddiannus wrth leihau risg gwirioneddol neu bosibl. Nid yw pobl yn cael eu gadael mewn amgylcheddau anniogel neu beryglus. Mae polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn yn cael eu deall a'u hymgorffori'n dda ac yn cyfrannu at ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n codi. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir archwilio mewn modd agored ac adeiladol newidiadau a gwelliannau yn ymddygiad a pherfformiad proffesiynol asiantaethau.

Meini prawf ansawdd

- DA1 Mae'r awdurdod lleol yn hybu ac yn cefnogi ymagwedd aml-asiantaeth effeithiol at asesu; diogelu a hyrwyddo lles pobl. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n cael ei wneud i atal pobl rhag dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed gan gynnwys cymorth ar gyfer pobl sydd "mewn perygl" o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed i gael mynediad at wasanaethau ymyriad cynnar.
- DA2 Mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cyflawni eu dyletswydd i ymholi mewn modd effeithiol os bydd achos rhesymol i amau bod person yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, camdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Mae ymholiadau'n cael eu cydlynu'n effeithiol ag asiantaethau ac ymchwiliadau perthnasol er mwyn galluogi penderfyniadau gwybodus amserol o ran a fydd angen camau gweithredu pellach, ac os felly, pa rai er mwyn diogelu a hyrwyddo lles y bobl dan sylw.
- DA3 Mae holl bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol yn deall ac yn cyflawni eu dyletswydd i hysbysu, os bydd ganddynt achos rhesymol i amau bod person mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- DA4 Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon i ddiogelwch personol a chymorth diogelu yn cael ei chodi a'i hybu gan ymgyrchoedd cyhoeddus. Mae'r awdurdod, ar y cyd â'i bartneriaid bwrdd diogelu a'r bwrdd diogelu, yn gweithio i sicrhau bod trefniadau ar waith i adael i bobl, gan gynnwys plant, wybod sut i gysylltu â nhw os bydd ganddynt bryderon am gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed, gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn yr ymateb.
- DA5 Mae pobl sy'n dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, neu'n debygol o fod mewn perygl ohonynt, yn cael eu nodi a'u diogelu rhag camdriniaeth a chamfanteisio gan yr awdurdod drwy weithio'n gydweithredol gyda'i sefydliadau partner.

- DA6 Mae amddiffyniad ar gyfer pobl yn sensitif ac yn atebol i oedran, anabledd, ethnigrwydd, ffydd neu gredo, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, iaith, hil a chyfeiriadedd rhywiol.
- DA7 Mae trefniadau rhyngasiantaeth effeithiol ar waith i sicrhau cydweithrediad wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau amddiffyn ac wrth rannu gwybodaeth. Mae'r holl weithwyr proffesiynol yn cyfrannu at unrhyw gamau gweithredu mae eu hangen i ddiogelu a hyrwyddo lles pobl ac yn adolygu'r canlyniadau a gyflawnir yn rheolaidd yn erbyn cynlluniau gofal a chymorth penodol.
- DA8 Mae'r awdurdod a'i bartneriaid allweddol yn cymryd rhan mewn cynadleddau achos, cyfarfodydd strategaeth a fforymau perthnasol eraill ac yn cyfrannu atynt yn effeithiol. Mae'r fforymau hyn yn effeithiol wrth alluogi rhannu gwybodaeth, cynllunio a gwneud penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar risg yn amserol. Mae pobl yn cael eu cefnogi i gyfrannu'n ystyrlon at y cyfarfodydd hyn.
- DA9 Mae pobl yn cael eu cefnogi, eu hysbysu a'u cynorthwyo, gan ddefnyddio eiriolaeth pan fydd angen, i ddeall y cymorth byddant yn ei dderbyn, gan gynnwys yr hyn y bydd yn rhaid ei newid a'r opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol. Gwneir y "cynnig gweithredol" i sicrhau bod pob yn gallu cyfrannu yn eu dewis iaith at ddatblygu cynlluniau i wella eu diogelwch a'u lles. Maen yn derbyn copi o asesiadau a chynlluniau yn eu dewis iaith fel rhan o'r drefn.
- DA10 Mae goruchwyliaeth gan reolwyr yn sicrhau proses gwneud penderfyniadau effeithiol ac yn herio mewn achosion lle nad yw amgylchiadau pobl yn newid neu lle mae'r perygl o niwed neu bresenoldeb niwed yn parhau.
- DA11 Mae mynediad clir at gyngor cyfreithiol. Mae trothwyon priodol ar waith i gychwyn trefniadau Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae'r berthynas rhwng yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, amddiffyn plant a chynllunio cyfocrog yn cael eu deall yn dda. Mae ceisiadau a wneir i'r llys yn adlewyrchu dymuniadau a theimladau'r plant, pobl ifanc a'u rhieni yn eglur. Mae ymarferoldeb aelodau estynedig y teuluoedd fel gofalwyr posibl yn cael ei nodi a'i harchwilio'n briodol Mae perthnasau gweithio â'r llysoedd lleol a'r gwasanaethau cysylltiedig yn dda ac yn cyfrannu at osgoi oedi diangen.
- DA12 Mae mynediad amlwg at gyngor cyfreithiol. Dylai hyn gynnwys unrhyw ddefnydd posibl neu ofynnol ar Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn neu Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.
- DA13 Mae honiadau o gamdriniaeth neu arfer gwael gan weithwyr proffesiynol a gofalwyr yn cael eu cymryd o ddifrif. Mae camau'n cael eu cymryd i amddiffyn pobl ac mae'r gwaith o reoli honiadau yn gadarn ac yn effeithiol.
- DA14 Mae Byrddau Diogelu yn gweithredu i sicrhau bod moddion effeithiol ar waith i amddiffyn oedolion a phlant o fewn ei ardal sy'n dioddef, neu wedi dioddef niwed neu all fod mewn perygl o ganlyniad o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Mae tystiolaeth bod y sefydliad wedi cael ei herio'n effeithiol pan na fydd trefniadau'n cyrraedd y safon ofynnol.

Dimensiwn Allweddol 5: Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

Cyfarwyddo Gwasanaethau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac yn sefydlu strategaeth effeithiol gyda'i gilydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd a chanlyniadau da ar gyfer pobl. Mae bodloni anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir ar gyfer cynghorwyr, rheolwyr, a staff. Mae gwasanaethau'n cael eu harwain yn dda, mae'r rheolaeth yn glir ac mae'r arweinyddiaeth yn gryf. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau drwy gydol y sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi cymorth, gofal a chefnogaeth i bobl ac yn cyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Mae cysylltiad pobl leol yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig ddigonedd o wybodaeth a dealltwriaeth o arfer a pherfformiad sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Meini prawf ansawdd

- RhG1 Mae trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol gan gynnwys **Cod Practis ar Swyddogaeth Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)**. Mae uwch reolwyr, arweinwyr, ac aelodau etholedig yn gweithio'n effeithiol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol unigol a thorfol. Mae perthnasau gweithio rhwng aelodau a swyddogion yn gadarnhaol. Mae llinellau atebolrwydd a llywodraethiant clir gyda gwahaniaeth clir rhwng swyddogaethau gwleidyddol, strategol a gweithredol.
- RhG2 Mae gan arweinwyr, gan gynnwys aelodau a rheolwyr etholedig, olwg clir ar y 'rheng flaen' ac yn dangos y gallu i ymateb yn briodol ac yn gyflym i ddiffygion mewn gwasanaethau neu ofynion newydd. Mae ansawdd gwybodaeth a lefel tryloywder yn galluogi yn hytrach nag yn rhwystro aelodau etholedig ac eraill, i ddeall a herio, fel y bo angen, asesiad yr awdurdod o berfformiad a darpariaeth. Mae aelodau etholedig, gan gynnwys pwyllgorau craffu, yn deall eu swyddogaeth, yn cael eu cefnogi i'w chyflawni ac yn effeithiol wrth ddal y deiliaid swydd perthnasol i gyfrif.
- RhG3 Mae Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol, yn deall swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr statudol yn darparu arweinyddiaeth; gan gynnwys cefnogaeth a her, i alluogi'r cyfrifoldebau statudol i gael eu bodloni.
- RhG4 Mae gweledigaeth glir a lefel uchel ar gyfer gofal cymdeithasol sydd wedi ei chyfathrebu ac sy'n cael ei deall gan y staff a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae hyn yn adlewyrchu gofynion lleol yn ogystal â'r rhai cenedlaethol, yn dylanwadu

ar osod blaenoriaethau a gweithgarwch comisiynu strategol. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu gydag awdurdod i gyflawni'r cyfrifoldebau ac i ysgogi newidiadau a gwelliannau mae eu hangen.

RhG5 Mae proses craffu ar arferion a'u goruchwyllo gan uwch reolwyr yn cael ei sefydlu, ac yn cael ei defnyddio'n systematig ac yn eglur gan yr awdurdod i wella ansawdd penderfyniadau a darpariaeth cymorth, gofal a chefnogaeth i bobl er mwyn hyrwyddo canlyniadau gwell. Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi mewnbwn a chefnogaeth eu huwch arweinwyr a'r rheolwyr.

RhG6 Mae uwch arweinwyr yn enghraifft o'r ymddygiadau a'r ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid a ddisgwylir drwy'r sefydliad. Maent yn dangos ystod o sgiliau arweinyddiaeth i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn ymwybodol o'r agenda ar gyfer newid ac yn deall eu cyfraniad ati. Mae ymrwymiad eglur a chorfforaethol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau o ran cynllunio gofal cymdeithasol. Mae proffil gofal cymdeithasol o fewn y cyngor yn ei grynsyth yn uchel.

GRh7 Mae perthnasau â phartneriaid allweddol, gan gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol, yn adeiladol ar bob lefel. Mae dealltwriaeth dda ar draws partneriaethau o sut mae systemau cyfan yn cyfrannu at wella lles a chanlyniadau ar gyfer pobl ac yn eu hybu mewn modd gweithredol. Mae trefniadau llywodraethu yn galluogi partneriaid i asesu a ydynt yn cyflawni cyfrifoldebau statudol i roi cymorth i bobl, i ofalu amdanynt a'u cefnogi. Mae partneriaid yn dal ei gilydd i gyfrif am eu cyfraniad at ddiogelu a darpariaeth gofal a chymorth i bobl.

RhG8 Mae'r cyngor wedi cefnogi cynigion allweddol ar gyfer buddsoddi a newid sy'n bwriadu cyflenwi gwell ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae cyllidebau yn cael eu rheoli'n dda ac yn gynaliadwy. Mae tueddiadau gwario yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae amrywiaeth mewn gwariant rhagamcanol yn isel yn gyffredinol. Mae dadansoddiad amserol o gostau uned allanolynnau. Mae arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol yn cael eu gwireddu. Nid yw hyrwyddo annibyniaeth a chymorth pobl ar gyfer gofal hunan-gyfeiriedig yn cael eu cyfyngu gan arbedion effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt.

RhC9 Mae trefniadau busnes yn hybu alinio cynlluniau datblygu timau a gwasanaethau ag amcanion y sefydliad. Mae gwaith monitro a sicrwydd ansawdd o ran safonau ansawdd gwasanaethau cymdeithasol yn nodi'n rhwydd meysydd cyflawni yn ogystal â meysydd i'w gwella. Mae camau perthnasol i gyflawni gwelliant yn cael eu rhoi ar waith ac yn llwyddo. Mae staff yn cael eu hannog a'u disgwyl i gymryd rhan mewn gweithgarwch datblygiadol. Mae hyn yn cyfrannu at ddysgu sefydliadol ac yn datblygu'r capasiti ar gyfer gwelliannau parhaus ar sail cyflawniadau ymarferol.

RhG10 Mae fframwaith sicrwydd ansawdd cynhwysfawr ar waith. Mae gan yr awdurdod lleol, drwy reoli perfformiad a monitro, ddealltwriaeth gywir a chyfredol o'i effeithlonrwydd. Mae'n dangos hanes o ymdrin yn gadarn ac yn effeithiol â'r meysydd i'w datblygu. Mae trefniadau mesur perfformiad yn cyd-

fynd mewn modd synhwyrol â gofynion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Mae dadansoddi yn darparu gwerthusiad da o gynnydd o ran canlyniadau unigol a phoblogaeth.

RhG11 Mae uwch arweinwyr yn ymrwymedig i wella mecanweithiau ac arferion diogelu. Mae atebolrwydd ar gyfer diogelu yn glir ar draws y cyngor a phartneriaethau allweddol. Mae ymrwymadau i ddiogelu, strwythurau a goruchwyliaeth i gefnogi systemau yn amlwg. Mae trefniadau diogelu yn cael eu harwain yn dda, eu cefnogi, ac yn derbyn yr adnoddau priodol.

RhG12 Mae'r awdurdod yn cynnwys amryw o randdeiliaid gwahanol, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, mewn ystod o waith partneriaeth. Mae fforymau partneriaeth wedi eu hen sefydlu ar gyfer grwpiau mawr o ddefnyddwyr gwasanaeth, gyda chynlluniau gwaith yn cyflenwi newidiadau mesuradwy.

Llunio a chomisiynu gwasanaethau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u comisiynu i wella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyflenwad gwasanaethau. Dylai cyflenwi gwasanaethau ganolbwyntio ar y canlynol:

- gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
- gwella canlyniadau ac iechyd a lles;
- darparu gofal a chymorth sydd wedi'u cydlynu ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ; a
- gwneud defnydd mwy effeithiol ar adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Mae gwaith gyda phartneriaid wrth lunio patrwm a chyflenwad gwasanaethau yn cael ei lywio gan safbwyntiau a phrofiadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu o bosibl bydd angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau. Dylai'r awdurdod lleol wneud cyfraniad llawn at sefydlu, rheoli a datblygu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol gyda'r bwrdd iechyd lleol. Mae cynlluniau strategol yn cael eu trosi'n drefniadau comisiynu sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd, diogel ac yn cyflenwi'r gwerth gorau am arian. Dylid bod dull integredig ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal a chymorth, sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer atal ac ymyriad cynnar, rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol.. Mae pobl yn elwa ar wasanaethau sydd:

- yn diwallu eu hanghenion asesedig.
- o ansawdd sydd wedi'i sicrhau yn erbyn safonau clir
- yn cael eu datblygu mewn partneriaeth
- yn cynnwys dewis o ran darpariaeth

Mae safbwyntiau pobl ar fylchau mewn gwasanaethau, ac effeithiolrwydd cymorth, yn arwain yn uniongyrchol at newidiadau ac yn helpu i lywio sut mae gwasanaethau'n cael eu monitro a'u datblygu.

Meini prawf ansawdd

- LIC1 Mae'r awdurdod lleol yn deall yr hyn sydd o bwys i bobl ac yn cymryd i ystyriaeth ddatganiadau canlyniadau lles sy'n tanategu diffiniad lles. Mae'r awdurdod, ar y cyd ag eraill, yn helpu pobl mae angen gofal a chymorth arnynt i gymryd rhan fel dinasyddion gweithgar, yn economaidd ac yn gymdeithasol, i gael mynediad at lety preswyl sy'n diwallu eu hanghenion ac i gyflawni a chadw ffordd o fyw iach. Mae canlyniadau lles cronus yn cael eu defnyddio ynghyd â mesurau ansoddol i lywio mesur perfformiad; arolygu; rheoleiddio; a chraffu. Maent hefyd yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- LIG2 Mae gan yr awdurdod lleol ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol wybodaeth fanwl a pherthnasol o'i boblogaeth leol gan gynnwys proffil y gymuned Gymraeg a ddylai gael ei gyhoeddi yn adroddiad blynyddol y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfuno o fewn asesiad y boblogaeth leol. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiadau cynhwysfawr a dealladwy o'r boblogaeth a'u hanghenion presennol ac ar gyfer dyfodol yn yr ardal leol.
- LLC3 Bydd yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gynllunio a sicrhau cyflenwi'r gwasanaethau gofal a chymorth integredig i ddiwallu anghenion y bobl yn eu hardal leol yn y ffordd orau. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau newydd o gyflenwi, symud y ffocws tuag at wasanaethau ataliol ac ymyriad cynnar.
- LIC4 Mae asesiadau strategol yn gosod proffiliau gwirioneddol ac arfaethedig ar gyfer anghenion gofal a chymorth ar y cyd ag ystod a lefel y gwasanaethau mae eu hangen i fodloni ac atal y rhain. Mae blaenoriaethau comisiynu lleol yn deillio o'r dadansoddiad hwn. Mae partneriaid yn cytuno ar ganlyniadau strategol ac yn eu trosi'n ymarfer.
- LIC5 Mae strategaethau comisiynu'n gyfredol ac yn cael eu nodi yng nghyfrifoldeb yr awdurdod i gyfathrebu â'r holl aelodau staff a gyflogir yn uniongyrchol neu o fewn gwasanaethau a gomisiynir yr angen i wneud y "cynnig gweithredol". Mae gwasanaethau mewnol ac sydd wedi'u comisiynu yn ymateb i anghenion pobl y mae angen cymorth, gofal ac amddiffyniad arnynt ac yn eu diwallu. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda chyrrff strategol eraill i hybu a sicrhau ystod eang o ddarpariaeth o ansawdd da i ddiwallu'r angen lleol.
- LIC6 Mae'r awdurdod lleol yn cymryd ymagwedd strategol at ddatblygu'r gymuned a'r trydydd sector gan gynnwys mentrau cymdeithasol i hyrwyddo llesiant. Mae enghreifftiau arwyddocaol o weithio ar y cyd ac yn integredig rhwng yr awdurdod lleol a'i bartneriaid (gan gynnwys y trydydd sector) y mae gan ganddynt effaith eglur ar ganlyniadau ar gyfer pobl a theuluoedd.
- LLC7 Mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu mewn modd gweithredol at ddwyn at ei gilydd yr holl bartneriaid perthnasol ac yn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau i bobl. Mae cyrrff partneriaethau lleol yn darparu digonedd o adnoddau er mwyn i'r trefniadau partneriaeth weithio'n dda. Mae tystiolaeth o'r cyfuno cyllidau'n briodol. Mae hyn yn gynnydd eglur ac amserol wrth

integreiddio gwasanaethau a datblygu modelau newydd o ofal, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol: pobl hŷn ag anghenion cymhleth; pobl ag anableddau dysgu; gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc; gwasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n integredig; a phlant anabl a'r rhai sydd ag anghenion cymhleth oherwydd salwch.

LLC8 Mae'r awdurdod lleol yn galluogi pobl i gynhyrchu atebion arloesol ar gyfer oedi, atal a diwallu'r angen am wasanaethau statudol drwy rwydweithiau a chymunedau lleol.

LIC9 Mae cyfle rheolaidd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys gofalwyr, a'r rhai sydd â diddordeb ynddynt roi eu barn. Mae trefniadau'n cael eu gwneud yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg i alluogi pobl i gyfrannu'n llawn yn iaith eu dewis. Mae ymgynghoriadau cynlluniedig a chynigion ar gyfer newid yn cael eu hysbysebu'n dda ac mae'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi Mae gan y rhai sydd wedi'u heffeithio'n fwyaf gan ddatblygiadau gyfleoedd penodol i gyfrannu eu barn, ac yn cael eu cefnogi i wneud hyn fel y bo angen. Mae ymarfer comisiynu yn cael ei lywio gan adborth a geir gan bobl ynglyn ag effeithiolrwydd y cymorth, gofal neu gefnogaeth maent yn eu derbyn o'r tro cyntaf mae ei angen nes y bydd yn dod i ben. Mae hyn yn cynnwys effaith gwasanaethau ataliol lefel isel.

LIC10 Mae'r awdurdod lleol yn ei adnabod ei hunan yn dda, mae'n sefydliad dysgu ac yn gallu dangos tystiolaeth o arfer sy'n wybodus, wedi'i addasu ac wedi'i wella gan adborth, ymchwil a gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiad y bobl sy'n eu defnyddio. Mae'r cyngor yn gwybod pa mor dda mae gwasanaethau'n gweithio a lle mae angen gwella a newid pethau. Mae tystiolaeth o waith comisiynu cydweithredol effeithiol o fewn neu rhwng ardaloedd awdurdodau gan gynnwys byrddau iechyd. Mae cyfleoedd i wireddu arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cymryd.

LIC11 Ar y cyfan mae pobl yn fodlon ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Mae pobl yn gwybod sut i wneud sylwadau, canmoliaethau a chwynion am wasanaethau lleol ac yn cael eu cefnogi i wneud hyn. Rhoddir sylw i gwynion yn gyflym. Mae canlyniadau cwynion yn cael eu rhannu ac yn cyfrannu at weithgarwch dysgu a gwella'r sefydliad.

LIC12 Mae'r awdurdod lleol yn effeithiol wrth hyrwyddo gwaith ataliol wedi'i leoli yn y gymuned a gwasanaethau ymyriadau cynnar ar gyfer pobl. Mae'r rhain yn lleihau'r angen i ofal a chymorth eilaidd neu ffurfiol. Mae gan bobl sydd angen gwasanaethau ddewis a mynediad da at wasanaethau cymorth cymunedol. Mae'r cymorth y mae pobl yn ei dderbyn yn cynyddu eu hannibyniaeth, ymreolaeth a'u hiechyd corfforol a meddyliol gymaint â phosibl. Mae'r galw am wasanaeth a chapsiti'r gweithlu mae ei angen i fynd i'r afael ag ef yn gweddu'n dda Mae oedi mewn gwasanaeth yn anaml, wedi'i leoli a thros dro.

LLC13 Mae'r rhan fwyaf o anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethu yn cael eu diwallu'n lleol. Yn gyffredinol, mae'r capasiti i ddiwallu anghenion cymorth arbenigol yn dda. Mae gwasanaethau'n gwneud cyfraniadau nodedig at roi cymorth i bobl i gyflawni lles. Mae gofal a chymorth yn cael eu dylunio a'u

cyflenwi mewn ffyrdd sy'n annog twf a chyflawniad personol a chyfranogiad cadarnhaol mewn cymunedau.

- LIC14 Mae lefel dda o brofiad comisiynu o fewn y gweithlu a chapasiti digonol i ddiwallu'r agenda comisiynu a ragwelir. Mae strwythurau, systemau a pholisïau yn hwyluso ymddygiadau comisiynu ac yn cefnogi cyfrifoldebau proffesiynol. Mae staff yn credu bod y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau yn glir ac yn gredadwy.
- LI15 Mae cytundebau comisiynu wedi'u datblygu'n dda gyda safonau eglur a disgwyliadau wedi'u hamlinellu i ddiwallu anghenion a nodwyd. Mae trefniadau monitro yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl, ansawdd a'r gwerth gorau am arian.
- LIC16 Mae trefniadau llywodraethu comisiynu a chydymffurfiaeth o ran contractau yn sicrhau bod swyddogaethau statudol (gan gynnwys y rhai ar gyfer amddiffyniad, gofal a chymorth) wedi cael eu dirprwyo i ddarparu'r trydydd parti, mae pobl sy'n derbyn y gwasanaethau hyn yn gwneud cynnydd o leiaf cystal â'r rhai a wasanaethir gan yr awdurdod lleol.
- LIC17 Mae trefniadau parhad yn ystod cyfnodau o newid contractau neu ddatgomisynu'r gwasanaethau presennol wedi'u cynllunio'n dda ac yn gadarn.

Gweithlu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Darperir gwasanaethau gan weithlu profiadol a medrus â chymwysterau addas sy'n gallu nodi a diwallu anghenion mewn modd amserol ac effeithiol. Mae'r cyngor yn gallu sicrhau bod staff a gwasanaethau'n cyrraedd y safonau a bennwyd ar eu cyfer. Mae gwasanaethu a chymorth yn yn gwella canlyniadau ar gyfer pobl.

Meini prawf ansawdd

- G1 Mae pobl yn teimlo eu bod o bwys, mae'r staff yn gwrando arnynt, ac yn siarad â nhw mewn modd maent yn ei ddeall. Maent yn cael eu trin â charedigrwydd, trugaredd a chyda pharch. Mae eu hawliau dynol yn cael eu bodloni.
- G2 Mae ansawdd yr arfer yn gwella mewn modd eglur bywydau pobl sy'n dioddef camdriniaeth, niwed neu esgeulustod neu mewn risg o'u dioddef.
- G3 Mae staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, yn derbyn cyfeiriad clir ac mae eu potensial yn cael ei ddatblygu. Mae unrhyw rwystrau i recriwtio a chadw staff yn cael eu cydnabod ac yn derbyn sylw o fewn strategaeth y gweithlu. Mae'r strategaeth yn dangos buddiannau pendant ar gyfer y gweithlu presennol yn ogystal ag ar gyfer gweithlu y dyfodol. Mae anghenion staffio y dyfodol yn cael eu deall a rhoddir cynlluniau ar waith ar eu cyfer.

- G4 Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn yr ardal leol a rhanbarthol yn ddigonol, yn sefydlog, yn fedrus ac â'r cymwysterau addas. Mae'r awdurdod lleol, ynghyd a'r bwrdd iechyd lleol a phartneriaid rhanbarthol eraill, yn dangos arweinyddiaeth dda ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol Mae defnyddio swyddi asiantaethau a thros dro yn gymesur. Mae gan bobl sydd ag anghenion cymhleth fynediad at staff â sgiliau arbenigol. Nid yw pobl yn profi newidiadau aelodau staff allweddol yn aml neu sydd heb eu cynllunio ymlaen llaw. Mae hyrwyddwr yr iaith Gymraeg wedi cael ei nodi gan wasanaethau cymdeithasol. Mae'r awdurdod yn hyrwyddo defnydd y logo "Cymraeg ar Waith" i alluogi siaradwyr Cymraeg i gael eu nodi.
- G5 Mae swyddi a chyfrifoldebau o fewn timau ac ar draws y sefydliad yn cael eu deall yn dda. Gellir ymdopi a'r llwythi achosion. Mae'r cyfraddau swyddi gwag ac absenoldeb yn isel ac mae lefelau morâl yn uchel yn gyffredinol.
- G6 Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethu yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi'u recriwtio mewn modd diogel ac wedi cael eu hymsefydlu'n briodol. Mae tystiolaeth o reoli'r gwaith goruchwyllo'r broses gwneud penderfyniadau mewn modd strwythuredig a rheolaidd. Mae rheolwyr yn sicrhau bod staff yn cael eu goruchwyllo a'u harfarnu ac yn rhoi blaenoriaethau i'r gweithgareddau hyn.
- G7 Mae gan yr awdurdod lleol cynllun cyfredol ar gyfer hyfforddi'r gweithlu sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r cynllun yn cynnwys yr holl staff rheng flaen a'r gweithlu ehangach fel y bo'n briodol. Mae blaenoriaethu hyfforddi yn cael eu llywio gan y gofynion proffesiynol y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus ac yn alinio iddynt. Mae modiwlau hyfforddi yn cynnwys elfen sy'n ymdrin ag effaith sensitifrwydd iaith ar effeithiolrwydd asesiadau a gofal, y "cynnig gweithredol" a chyfrifoldeb cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn y Saesneg a'r Gymraeg.
- G8 Mae gan staff fynediad da at hyfforddiant ac mae cymorth effeithiol gan y sefydliad ar gyfer datblygiad proffesiynol ymarferwyr a rheolwyr. Mae'r awdurdod yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith buddsoddi mewn hyfforddiant ar arferion rheng flaen.
- G9 Mae staff yn hyderus o ran hysbysu am fwlio neu arferion gormesol.